

**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL  
Y CABINET - DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2023  
IS-BWYLLGOR (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt (Cadeirydd), A.Llewelyn a/ac J.Hurley

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Griffiths, H.Jones, H.Lewis, C.John a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd S K Hunt (Arweinydd y Cyngor) yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Nodwyd Blaenraglen Waith 2022/23.

6. **CAIS I'R GRONFA GRANTIAU AMRYWIOL**

Nododd yr aelodau fod yr acronym 'CBC' yn golygu 'Cwmni Budd Cymunedol'. Byddai'r Prif Swyddog Cyllid yn dosbarthu'r Polisi Grantiau Amrywiol i aelodau y tu allan i'r cyfarfod hwn.

**Penderfyniad:**

Bod £9,350 y flwyddyn yn cael ei roi i CBC Ymddiriedolwyr Jones tuag at gost y rhent, sef £9,845 y flwyddyn, mewn perthynas â phrydlesu meysydd chwarae ac ardaloedd hamdden yng Nghae Chwarae Evans Bevan, Croes Baglan, Port Talbot i'w ddefnyddio fel Canolfan Gymunedol (Canolfan Gymunedol y Groes).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y gefnogaeth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **POLISI GWRTH-LYGREDIGAETH**

Esboniodd swyddogion fod y rhifau yn y polisi a ddisbarthwyd yn anghywir, ac y dylai lifo o 1.1 i 1.2 i 1.3 ac yn y blaen.

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (Ile bo'n briodol).

9. **DILEU TRETH Y CYNGOR**

**Penderfyniad:**

Bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddileu'r symiau Treth y Cyngor, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ddileu dyledion cyfrifon nad oes modd eu hadennill.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH MORGANNWG**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/2023 ar gyfer ceisiadau cymwys a dderbyniwyd ar y dyddiad cau neu cyn hynny.
2. Cymeradwyo'r taliadau i'r ymgeiswyr hynny y mae angen cymorth parhaus gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg arnynt, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu cymorth ariannol addas i fyfyrwyr a fyddai'n dioddef o galedi fel arall.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

11. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH HAROLD A JOYCE CHARLES**

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad preifat a ddsbarthwyd, o Gronfa Harold a Joyce Charles ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/2023, ar gyfer ceisiadau cymwys a dderbyniwyd ar y dyddiad cau neu cyn hynny.
2. Cymeradwyo'r taliadau i'r ymgeiswyr hynny y mae cymorth parhaus gan Gronfa Harold a Joyce Charles eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddsbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu cefnogaeth ariannol addas i fyfyrwyr a fyddai'n dioddef o galedi fel arall.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**